1968-2008
40
Gwarchod Glöynnod Byw
40 mlynedd o achub glöynnod byw, gwyfynod a'u cynefinoedd

MOTHS COUNT

# Adnabod gwyfynod

**Beth yw gwyfyn?**
Mae glöynnod byw a gwyfynod gyda'i gilydd yn ffurfio grŵp o drychfilod o'r enw'r Lepidoptera, sy'n golygu "â chennau ar eu hadenydd". Mae patrymau a lliwiau eu hadenydd yn cael eu creu gan filoedd o gennau bychain, sy'n gorymylu ar ei gilydd fel llechi ar do. (Dylech chi osgoi cyffwrdd â'u hadenydd, oherwydd bod hyn yn peri i'r cennau ddod yn rhydd fel math o lwch.) Mae llai na 70 o fathau o löynnod byw i'w cael yng ngwledydd Prydain, ond mwy na 2,500 o rywogaethau gwyfynod. Ond nid yw mor hawdd ag y gallech chi dybio i wahaniaethu rhwng y ddau grŵp.

Mae pob glöyn byw yn hedfan yn ystod y dydd ac mae'r rhan fwyaf o'r gwyfynod yn hedfan gyda'r nos, ond mae rhai gwyfynod yn hedfan yn ystod y dydd ac yn wir mae'r mathau o wyfynod sy'n hedfan yng ngolau dydd yn fwy niferus na holl rywogaethau'r glöynnod byw. Mae pobl yn tueddu i feddwl bod glöynnod byw yn fwy lliwgar na gwyfynod, ond mae gwyfynod yn gallu bod yr un mor lachar eu lliwiau. Mae hyn yn arbennig o wir am y gwyfynod sy'n hedfan yn ystod y dydd, megis y Gwyfyn Claergoch, Teigr y Coed a'r Bwrnedau, sy'n debygol iawn o'r herwydd o gael eu camgymryd am löynnod byw. I ddrysu pethau'n fwy byth, mae gan y gwyfynod bwrned deimlyddion penfras fel rhai glöyn byw, tra bod teimlyddion y rhan fwyaf o wyfynod yn bluog neu'n wrychog heb pennau trwchus iddynt.

Mae llawer o bobl yn meddwl bod gwyfynod yn fwy blewog na glöynnod byw, ond maent yn amrywio ac mae rhai gwyfynod yn llai blewog na rhai glöynnod byw. Nid yw eu hystum gorffwys yn ffordd ddi-feth o ddweud y gwahaniaeth chwaith. Er bod y rhan fwyaf o löynnod byw yn gorffwys â'u hadenydd wedi'u cau'n sefyll dros eu cefnau, mae'r Gwibiwr Llwyd (glöyn byw) yn dal ei adenydd bron yn wastad yn debyg i wyfyn, tra bod rhai gwyfynod yn dal eu hadenydd yn unionsyth fel glöynnod byw.

**Gwalchwyfyn Gwenynog Ymyl Gul** R.Thompson

**Gwyfyn Claergoch** M.Parsons

**Siâp, lliw a phatrwm**
Y gwir yw bod ystumiau gorffwys gwyfynod yn amrywio'n fawr, ac un ffactor allweddol sy'n gymorth i adnabod rhywogaeth benodol yw ystum gorffwys ei hadenydd sy'n dylanwadu ar siâp corff cyfan y gwyfyn. Mae rhai rhywogaethau, er enghraifft, yn estyn y pedair adain i gyd allan wrth ochrau'r corff tra'n gorffwys. Mae eraill yn llithro'r adenydd blaen yn ôl dros yr adenydd cefn a'r corff, gan ffurfio siâp triongl llydan neu gul. Mae rhai'n gorffwys hyd yn oed â'r adenydd cefn yn ymwthio allan o flaen yr adenydd blaen (fel y Gwyfyn Llabedog drosodd) ac mae rhai'n plygu neu'n crychu eu hadenydd. Y siâp yw'r peth cyntaf i'w ystyried wrth geisio adnabod unrhyw wyfyn, ac weithiau mae'r siâp yn unig yn ddigon i'ch galluogi i'w enwi. Gellir adnabod y rhan fwyaf o'r Gwalchwyfynod er enghraifft yn syth, diolch i'w siâp nodweddiadol, sy'n cael eu tebygu'n aml i jet ymladd.

Mae lliw a phatrwm yr adenydd yn ffactor pwysig iawn wrth geisio adnabod gwahanol rywogaethau. Mae gan rhai gwyfynod liwiau llachar a phatrymau eofn sy'n eu gwneud yn hawdd i'w hadnabod. Weithiau maent yn defnyddio lliwiau a phatrymau llachar i rybuddio ysglyfaethwyr eu bod yn blasu'n gas; ond dim ond cymryd arnynt y mae eraill trwy ddynwared rhywogaethau annymunol eu blas. Mae yna wyfynod eraill, megis y Gwalchwyfyn Llygadog (drosodd) sy'n edrych yn ddi-liw tra'n gorffwys ond sy'n cuddio adenydd blaen lliwgar y gallant eu dangos yn sydyn wrth gael eu styrbio i frawychu darpar ysglyfaethwyr.

Mae llawer o wyfynod yn gwisgo patrymau cuddliw sy'n eu helpu i ymdoddi'n gynnil i'w cefndir. Mae gan eraill farciadau llachar sy'n torri ar draws eu proffil fel nad yw ysglyfaethwyr yn gweld siâp amlwg gwyfyn. Mae yna rai hefyd â golwg dwyllodrus pethau fel dail meirwon, brigau neu dail adar, neu anifeiliaid hollol wahanol hyd yn oed. Mae'r Gwalchwyfyn Gwenynog a'r Gliradain yn dynwared gwenyn, cacwn meirch a chacwn bach (picwns), fel na fyddwch yn sylweddoli i ddechrau mai gwyfynod ydynt. Gair o rybudd: weithiau mae cacwn meirch go iawn yn cael eu denu gan oleuadau a maglau gwyfynod; peidiwch â chymryd yn ganiatáol bob amser felly fod yr hyn sy'n edrych fel cacynen feirch yn wyfyn bach diniwed!

**Arweinlyfrau adnabod gwyfynod**
Gan fod mwy na 2,500 o rywogaethau yn y DU, bydd angen cyfarwyddyd mwy manwl arnoch chi i'ch helpu i adnabod y gwahanol wyfynod y byddwch yn dod ar eu traws. Mae gwyfynod yn cael eu rhannu'n ddau grwp: y gwyfynod mwy (macro-wyfynod) a'r rhai llai (micro-wyfynod). Mae'n well dechrau delio â'r gwyfynod mwy o faint, y mae rhyw 900 ohonynt, ac ar y rhain y mae prosiect Cyfrif Gwyfynod yn canolbwyntio. Maent yn cynnwys y gwyfynod mwyaf adnabyddus a mwyaf trawiadol, ac mae arweinlyfrau ar gael sy'n eu cynnwys i gyd (mae'r rhan fwyaf o'r micro-wyfynod, er nid pob un, yn llai o lawer, a 'does dim un llyfr sy'n delio â nhw i gyd). Mae'r llyfrau da am facro-wyfynod yn cynnwys:

- **Concise Guide to the Moths of Great Britain and Ireland**
  M.Townsend and P. Waring,
  British Wildlife Publishing, 2007.
  (Lluniau o wyfynod yn eu hystumiau gorffwys naturiol.)
- **Field Guide to the Moths of Great Britain and Ireland**
  P. Waring and M.Townsend,
  British Wildlife Publishing, 2003.
  (Lluniau o wyfynod yn eu hystumiau gorffwys naturiol.)
- **The Colour Identification Guide to Moths of the British Isles**
  B.Skinner, Viking, 1998.
  (Lluniau o wyfynod â'u hadenydd ar led i ddangos yr adenydd cefn.)

Os dewch chi ar draws lindys, gallech chi roi cynnig ar eu meithrin i weld sut olwg sydd ar y gwyfynod llawn dwf, ond mae llyfrau ar gael hefyd i'ch helpu i adnabod gwahanol lindys. Mae lluniau lliw o lindys i'w cael yn:

- **The Colour Identification Guide to Caterpillars of the British Isles**
  J.Porter, Viking, 1997.

Mae llyfrau am wyfynod yn cynnwys gwybodaeth hefyd am hoff gynefinoedd y gwyfynod, yr ardaloedd daearyddol lle gellir disgwyl eu gweld, a'r adegau o'r flwyddyn pan fyddant yn bresennol. Mae'r manylion hyn yn gymorth defnyddiol iawn i adnabod rhywogaethau, a dylech chi gyfeirio at yr rhain hefyd bob amser yn ogystal â'r lluniau. O bryd i'w gilydd mae'n bosibl dod o hyd i wyfyn mewn mannau lle "na ddylai" fod, ac efallai y bydd hyn yn digwydd yn amlach wrth i'r hinsawdd newid, ond fel rheol os ydych yn gwybod ymhle a pha bryd y dylid disgwyl gweld gwyfyn penodol, fe fydd yn haws ichi wahaniaethu rhwng rhywogaethau sydd fel arall yn edrych yn debyg i'w gilydd.

**Gwalchwyfyn Llygeidiog** M.Parsons

**Llabed** R.Thompson

Mae lluniau o wyfynod ar gael ar-lein hefyd ar wefan Cyfrif Gwyfynod **www.mothscount.org**, ar wefan UK Moths **www.ukmoths.org.uk** a hefyd ar wefannau'r gwahanol grwpiau gwyfyna lleol. Os oes camera digidol gennych, tynnwch lun o unrhyw wyfyn sy'n anodd i'w adnabod. Fel hyn, gallwch chi ryddhau'r gwyfyn a chyfeirio at y llun yn nes ymlaen.

Ffordd ardderchog o wella eich sgiliau adnabod yw edrych ar wyfynod yng nghwmni pobl fwy profiadol, er enghraifft ar nosweithiau dal gwyfynod lleol. Fe fydd y rhan fwyaf o selogion gwyfynod wrth eu bodd yn eich helpu i adnabod gwahanol rywogaethau, gan gofio'r cymorth a roddwyd iddyn nhw pan ddechreuon nhw.

Mae angen ichi gadw mewn cof bod gwyfynod unigol o'r un rhywogaeth yn gallu amrywio ychydig o ran eu golwg. A hefyd, wrth i wyfynod heneiddio, mae eu lliwiau'n tueddu i bylu, mae'r adenydd yn colli rhai o'u cennau gan wneud y marciadau a'r lliwiau'n llai amlwg, ac mae ymylon yr adenydd yn gallu mynd yn fwy carpiog. Hyd yn oed os dewch chi ar draws llawer o wyfynod o'r un rhywogaeth felly, pan ydych chi'n ddechreuwr mae'n werth cymryd amser i'w harchwilio i gyd er mwyn deall i ba raddau y mae unigolion o'r un rhywogaeth yn gallu amrywio. Gyda mwy o brofiad fe ddewch chi'n gyfarwydd â'r fath wahaniaethau.

Fe welwch chi fod yr enwau yr un mor ddiddorol weithiau â'r gwyfynod eu hunain. Er enghraifft, mae yna sawl math o grynwr, troedwas, bidog, dart, ton, cathan a phwtyn. Mae yna wyfyn hyd yn oed o'r enw Clais!

Gan fod cymaint o rywogaethau gwahanol, efallai na fyddwch chi'n gallu enwi pob un o'r gwyfynod a'r lindys a welwch chi, yn enwedig ar y dechrau, ond serch hynny fe allwch chi fwynhau eu prydferthwch, eu golwg syfrdanol a'r gwahaniaethau anhygoel rhyngddynt.

## www.mothscount.org

**Butterfly Conservation** Manor Yard East Lulworth Wareham Dorset BH20 5QP Ffôn: 01929 406009 nmrs@butterfly-conservation.org www.butterfly-conservation.org
Dyluniwyd gan nectarcreative 01942 681648.